**ADRODDIAD I'R CABINET**
**16 Gorffennaf 2013**

**Aelod Cabinet:** Cyng. Sian Gwenllian

**Pwnc:** Cadarnhau'r cynnig i gau Ysgol Llidiardau

**Swyddog cyswllt:** Cyfarwyddwr Corfforaethol - Iwan T. Jones

---

## Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad

Fel mater o drefn ffurfiol - gofynnir i'r Cabinet gadarnhau'n derfynol y cynnig a roddwyd drwy rybudd statudol, i gau Ysgol Llidiardau ar 31 Awst, 2013.

Gofynnir i'r Cabinet;

i. Cadarnhau'r cynnig a roddwyd drwy rybudd statudol, i gau Ysgol Llidiardau, Rhoshirwaun ar Awst 31, 2013, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Crud y Werin, Aberdaron o 1 Medi 2013; ac hefyd

ii. Cadarnhau'r trefniadau cludiant ar gyfer y cyfnod trawsnewidiol yn unig, pryd bydd cludiant di-dâl i'r disgyblion hynny sydd wedi cofrestru yn Ysgol Llidiardau ar hyn o bryd, i Ysgol Crud y Werin, Aberdaron neu Ysgol Pont y Gof, Botwnnog yn benodol, os yn byw dros 2 filltir i'r ysgol a ddewisir, neu yn derbyn cludiant am ddim oherwydd natur y ffordd yn unol â pholisi cludiant cyfredol. Byddai hyn yn drefniant dros dro ar gyfer disgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol ar 31 Awst 2013 yn unig ac am eu cyfnod yn yr ysgol.

---

## Barn yr aelod lleol

Bydd yr Aelod lleol yn cyflwyno sylwadau yn y cyfarfod

---

## 1. Cyflwyniad

1.1. Wedi cyfnod o drafodaeth – datblygwyd consensws yn lleol i gefnogi penderfyniad Llywodraethwyr Ysgol Llidiardau i gydnabod nad oedd yr ysgol yn gynaliadwy a cheisio cymorth yr Awdurdod am ateb tymor hir, er lles y disgyblion. Nodwyd fod angen symud ymlaen â'r drafodaeth gan fod sefyllfa'r ysgol yn fregus;

- Niferoedd yr ysgol yn peri pryder. Ym Medi 2012 – 14 o ddisgyblion oedd wedi eu cofrestru yn yr ysgol
- Rhagolygon niferoedd - Mae rhagolygon yn dangos 14 o ddisgyblion 2013, 15 o ddisgyblion yn 2014 a 16 o ddisgyblion yn 2015 a 2016

- Nifer o lefydd gweigion - 75% o lefydd gweigion (43 mewn nifer) yn Ysgol Llidiardau.
- Ysgol Llidiardau yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi gwarchodaeth lleiafswm staffio. Mae cyfanswm y swm ychwanegol hwn yn ystod blwyddyn ariannol 2012/2013 yn £17,534. Nid oes ond digon o gyllid i gyflogi Pennaeth a chymhorthydd.
- Cost fesul disgybl yn Ysgol Llidiardau yw £8,544 (2012/2013), o gymharu â chyfartaledd Sirol cost y disgybl am yr un cyfnod yn £3,838.

1.2. Penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2013, i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol yn unol â gofynion Adran 29 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ar gau Ysgol Llidiardau 31 o Awst 2013 a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Crud y Werin, Aberdaron o 1 Medi 2013.

1.3. Yn unol â'r gofynion statudol a chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, fe ymgymerwyd â chyfnod o ymgynghori statudol ar y cynnig gyda'r rhai perthnasol oedd â diddordeb, o 18 Mawrth hyd at 13:00 ar 26 Ebrill 2013 ar y cynnig i gau Ysgol Llidiardau. Adroddwyd yn ôl i'r Cabinet 21 o Fai 2013 er mwyn cael caniatâd i gyhoeddi Rhybudd Statudol.

1.4. Cyhoeddwyd y Rhybudd Statudol ar y 6ed o Fehefin 2013 a daeth y cyfnod i ben Gorffennaf 8fed 2013. Yn ystod y cyfnod hwn ni dderbyniwyd gwrthwynebiad i'r cynnig – ac felly, mae cyfle nawr i'r Cabinet ystyried y sefyllfa cyn dod i benderfyniad ar gadarnhau y cynnig yn derfynol.

## 2. Rhesymau dros argymell y penderfyniad

2.1. Yn unol â strategaeth *'Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd'* ystyriwyd nifer o ffactorau wrth ddatblygu opsiynau ar gyfer y sefyllfa, sydd yn cynnwys:

- Maint dosbarthiadau
- Poblogaeth a niferoedd disgyblion
- Ansawdd Addysg
- Arweinyddiaeth
- Adnoddau Ariannol ac Adeiladau
- Ardrawiadau Ieithyddol, Cymunedol a Chydraddoldeb
- Cludiant a dalgylchoedd ysgolion

2.2. O ran yr ymateb yn gyffredinol yn ystod yr ymgynghoriad, gellir nodi fod cytundeb wirfoddol gyffredinol i'r syniad o gau'r ysgol oherwydd y diffyg niferoedd. Roedd yr ymatebion a sylwadau a dderbyniwyd yn ystod cyfarfodydd statudol yn canolbwyntio ar y materion amlinellir isod:

- Trefniadau cludiant a'r cynnig arfaethedig o ran dalgylchoedd mynediad ysgolion
- Materion addysgol

- Materion staff yn ystod y cyfnod o newid
- Materion ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol
- Materion adnoddau – cyllid ac adeiladau
- Yr Iaith Gymraeg
- Materion Cymunedol a'r effaith ar adnodd y neuadd bentref

2.3. Mae'r materion hyn wedi cael sylw manwl iawn yn yr adroddiad gyflwynwyd i'r Cabinet ar Mai 21, 2013. Atodir copi o'r adroddiad er hwylustod yn Atodiad 1.

2.4. Un o'r trafodaethau amlycaf yn ystod yr ymgynghoriad oedd trefniadau cludiant ar ôl cau Ysgol Llidiardau. Oherwydd sefyllfa hanesyddol dalgylchoedd ysgolion yn gorgyffwrdd yn yr ardal hon, daeth i'r amlwg y byddai angen ystyried trefniadau cludiant arbennig i ysgolion penodol yn ystod y cyfnod o newid. Mae'r cynnig isod yn cyd-fynd â'r egwyddor hon o geisio cyfyngu amseroedd teithio o fewn cyd-destun lleol hanesyddol.

2.5. Yn y cyfarfod ar Fai 21, 2013 argymhellwyd o ran trefniadau cludiant yn ystod y cyfnod trawsnewidiol yn unig y bydd cludiant di-dâl i'r disgyblion hynny sydd wedi cofrestru yn Ysgol Llidiardau ar hyn o bryd, i Ysgol Crud y Werin, Aberdaron neu Ysgol Pont y Gof, Botwnnog yn benodol, os yn byw dros 2 filltir i'r ysgol a ddewisir, neu yn derbyn cludiant am ddim oherwydd natur y ffordd yn unol â pholisi cludiant cyfredol. Byddai hyn yn drefniant dros dro ar gyfer disgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol ar 31 Awst 2013 yn unig ac am eu cyfnod yn yr ysgol.

## 3. Crynodeb a chamau nesaf

3.1. Felly, yn dilyn cyfnod o drafod a chyfnod o ymgynghoriad statudol – yn unol â phenderfyniad y Cabinet, cyhoeddwyd rhybudd statudol i gau Ysgol Llidiardau a darparu lle i'r disgyblion yn Ysgol Crud y Werin Aberdaron. Yn rhan o'r argymhelliad, mae'r trefniadau cludiant interim nodwyd uchod. Gwnaed yr hysbysiad hwn am gyfnod o fis. Rhoddwyd copïau o'r hysbysiad mewn mannau amlwg yn yr ardal, copi i rieni a llywodraethwyr, staff, y wasg a gwefan y Cyngor. Yn ystod y cyfnod hwn, ni dderbyniwyd yr un gwrthwynebiad i'r cynnig.

3.2. Yn dilyn y broses statudol, os fydd y Cabinet yn cadarnhau cynnwys y rhybudd statudol i gau'r ysgol – bydd Llywodraeth Cymru, fel cam ffurfiol, yn cael eu hysbysu o hynny.

## 4. Argymhelliad

4.1. Gofynnir i'r Cabinet;

i. Cadarnhau'r cynnig a roddwyd drwy rybudd statudol, i gau Ysgol Llidiardau, Rhoshirwaun ar Awst 31, 2013, a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Crud y Werin, Aberdaron o 1 Medi 2013; ac hefyd

ii. Cadarnhau'r trefniadau cludiant ar gyfer y cyfnod trawsnewidiol yn unig, pryd bydd cludiant di-dâl i'r disgyblion hynny sydd wedi cofrestru yn Ysgol Llidiardau ar hyn o bryd, i Ysgol Crud y Werin, Aberdaron neu Ysgol Pont y Gof, Botwnnog yn benodol, os yn byw dros 2 filltir i'r ysgol a ddewisir, neu yn derbyn cludiant am ddim oherwydd natur y ffordd yn unol â pholisi cludiant cyfredol. Byddai hyn yn drefniant dros dro ar gyfer disgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol ar 31 Awst 2013 yn unig ac am eu cyfnod yn yr ysgol.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
"Rwy'n cefnogi'r argymhelliad hwn, sydd yn gwbl resymegol yn yr amgylchiadau."

**Y Swyddog Monitro:**
"Rwy'n fodlon fod yr adroddiad yn cyfarch yr holl faterion cyfreithiol angenrheidiol ac nad oes materion ychwanegol o briodoldeb yn codi."

**Y Pennaeth Cyllid:**
"Mae rhesymau amlwg (gan gynnwys rhai ariannol) yn cefnogi'r cynnig i gau Ysgol Llidiardau ac rwy'n cefnogi'r argymhellion, fydd yn sicrhau arbedion net blynyddol o tua £56,000."

---

**Atodiad** (I'w gael ar we drwy'r linc isod)

Adroddiad Cabinet Mai 21, 2013